



A yw'n cyfrif fel gwirfoddoli?

Cyflwyniad

Nod y daflen wybodaeth hon yw diffinio beth sy'n cyfrif fel gwirfoddoli a beth sydd ddim. Mae'n crynhoi'r mathau gwahanol o wirfoddoli a all fod ar gael ac o ddi-ddordeb i chi.



Diffinio Gwirfoddoli.

Mae Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni yn rhydd, o ddewis.
- sy'n cael ei gyflawni er budd y cyhoedd/y gymuned.
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol.

Y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector (gwirfoddol) yw WCVA (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru). Pwrpas honedig WCVA yw 'Galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd'. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn www.wcva.cymru.

Yn lleol, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (www.scvs.org.uk) a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (www.nptcvs.wales) yw'r sefydliadau ymbarél ar gyfer gweithgarwch gwirfoddol. Maent yn darparu gwybodaeth a chymorth i sefydliadau ac unigolion ar bopeth yn ymwneud â gwirfoddoli.



Diffinio mathau gwahanol o wirfoddoli

Gwirfoddoli anffurfiol yw lle mae unigolyn yn cynorthwyo unigolion neu grwpiau cymunedol eraill. Mae'n bosib na fydd gwirfoddolwyr anffurfiol yn aml yn meddwl am eu rôl fel gwirfoddoli. Byddai gweithgareddau megis helpu cymydog (heb dâl) neu gynorthwyo mewn digwyddiad lleol yn cyfrif fel gwirfoddoli anffurfiol.

Gwirfoddoli ffurfiol yw lle mae gwirfoddoli yn cael ei wneud drwy sefydliad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Rhoddir hyfforddiant a chymorth priodol i gyflawni rôl benodol. Mae rolau yn niferus ac yn amrywiol a bydd naill ai SCVS neu NPTCVS yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfle addas. Gall rolau gynnwys cefnogi unigolion neu grwpiau ond gallant hefyd helpu i siapio polisiau a gwasanaethau gyda chymunedau.





O fewn gwirfoddoli ffurfiol/anffurfiol mae nifer o rolau a ffyrdd o wirfoddoli, mae rhai yn llai amlwg nag eraill, ac mae'n bosib na fyddant yn cael eu cyfrif fel gwirfoddoli weithiau. Er enghraifft, gellid cyfrif interniaeth neu leoliad gwaith heb dâl fel gwirfoddoli os oes budd cymunedol. Enghraifft arall yw Gwirfoddoli a gefnogir gan y Cyflogwr; lle mae cyflogwyr yn caniatáu i staff ymgysylltu â gweithgareddau gwirfoddoli yn ystod oriau gwaith â thâl. Gan nad yw aelodau staff yn cael eu talu yn benodol am y rôl, yn gyffredinol, mae'n dal i gael ei chyfrif fel gwirfoddoli.

Gallwch ddarllen mwy am hyn yma:



<https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Employer-supported-volunteering.pdf>

Mae rolau gwirfoddoli yn niferus ac yn amrywiol. Yn aml, maent yn cynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb o fewn cymuned, mewn rolau megis cyfeillio neu weithio mewn siop elusen. Mae rolau eraill, fodd bynnag, nad ydynt mor amlwg ond sydd yr un mor bwysig megis eistedd ar bwyllgor lleol neu ymgymryd â thasgau gweinyddol. Beth bynnag fo'ch diddordebau a sgiliau, mae'n debygol y bydd cyfle gwirfoddoli i chi.

Sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr

Mae nifer o wahanol fathau o sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli yn cynnwys;

Elusennau, sefydliadau nid-er-elw, grwpiau cymunedol, sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau'r sector preifat.





Enghreifftiau. O beth sy'n cyfrif fel gwirfoddoli/beth sydd ddim

Mae Thomas yn danfon bwyd i elusen, maent yn talu 25c y filltir iddo am ddefnyddio ei gar.

Mae hyn yn cyfrif fel gwirfoddoli gan fod y taliad yn talu am dreuliau Thomas ac nid yw o fantais ariannol iddo. Mae'n arfer dda i sefydliadau dalu am dreuliau gwirfoddolwyr.

Mae Ashima yn 18 oed ac eisiau astudio i fod yn weithiwr cymdeithasol. Mae'n rhaid iddi gofnodi 400 awr o brofiad perthnasol i gael lle ar y cwrs gradd. Ar hyn o bryd, mae'n helpu mewn clwb ieuenctid i blant sy'n derbyn gofal ar gyfer elusen leol.

Mae hyn yn cyfrif fel gwirfoddoli. Er gwaethaf ei fod yn ofyniad i Ashima er mwyn cael lle ar ei chwrs, nid yw'n orfodol ei bod yn ei wneud, ac mae gan ei rôl fudd i'r gymuned.

Mae Emily yn helpu cymydog hŷn drwy fynd i siopa iddi bob wythnos. Er nad yw'n gofyn am unrhyw beth, mae'r fenyw yn mynnu rhoi £10 i Emily bob wythnos fel diolch.

Er nad yw'n gofyn am daliad, drwy ei dderbyn mae Emily yn ennill yn ariannol, felly ni fyddai hyn yn cyfrif fel gwirfoddoli dan ddiffiniad Llywodraeth Cymru.



Cysylltiadau a dolenni



Rydw i'n gweithio gyda gwirfoddolwyr - WCVA

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw beth i'w wneud gyda gwirfoddoli, cysylltwch â'ch Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Lleol.

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot



01639 631246



www.nptcvs.org.uk

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe



01792 544006



www.scvs.org.uk



Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru

Prosiect amlasiantaethol yw

Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

www.westglamorgan.org.uk/wgvs